Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Crynodeb Gweithredol

# Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd



www.npt.gov.uk

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

*Making a difference Gwahaniaeth er gwell*

ENVT1668

## Rhagair

"Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwyfwy amlwg i bawb ac rydym yn gweld achosion o lifogydd difrifol ar y newyddion cenedlaethol yn aml. Mae'n anochel y byddwn yn dioddef llifogydd yn y dyfodol er gwaethaf ein hymdrechion i'w hatal.

Nod Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Castell-nedd Port Talbot yw lleihau'r perygl o lifogydd a'u heffeithiau. Rydym yn gobeithio cyflawni hyn trwy gynyddu ymwybyddiaeth yn y gymuned ac annog ymagwedd bartneriaeth gyda'r gymuned a sefydliadau allanol i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaen. Mae'r strategaeth yn gobeithio manteisio ar gyfleoedd ariannu a all gyfrannu at atal llifogydd, gan gynnwys datblygu gweithdrefnau cydnerthu gwell a'r gallu i adfer ar ôl dioddef llifogydd.

Datblygwyd y strategaeth hon â'r nod o gynaladwyedd tymor hir ac i sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn parhau i fod yn le deniadol i fyw, i weithio ac i ymweld ag ef."



***Ali Thomas - Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot***

## Pam mae angen Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd?

Yn ddiweddar mae'r Llywodraeth wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i reoli perygl llifogydd mewn modd mwy cydlynol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cysylltu'n bennaf â **pherygl llifogydd lleol**. Perygl llifogydd lleol yw perygl llifogydd o:

- ddŵr arwyneb,
- dŵr daear, a
- chyrsiau dŵr cyffredin e.e. afonydd bach, nentydd a ffosydd.




Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) yn parhau i fod yn gyfrifol am berygl llifogydd o afonydd eraill a'r môr.



# Cyflwyniad

Un o'r cyfrifoldebau newydd sydd gan awdurdodau lleol yw'r ddyletswydd i lunio **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol**. Mae'r Strategaeth yn nodi'r perygl o lifogydd lleol sylweddol ar gyfer yr ardal, gan ganolbwyntio'n bennaf ar lifogydd o ddŵr arwyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin, ac yn helpu pawb yr effeithir arnynt i ddeall ac i reoli perygl llifogydd. Mae'n rhaid i'r strategaeth fod yn gyson â'r hyn a nodir yn:

- **Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010,** a'r
- **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**. [Dolen i'r Strategaeth Genedlaethol isod]

http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy

Prif nod y strategaeth yw lleihau'r perygl o lifogydd a'r difrod cymdeithasol ac economaidd a achosir gan lifogydd, a hynny mewn modd cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn gyfle delfrydol i'r awdurdod weithio gyda'r Awdurdodau Rheoli Risg, preswylwyr a busnesau i leihau'r perygl o lifogydd ac i baratoi ar gyfer y dyfodol.

## Beth sy'n cael ei gynnwys yn y strategaeth?

- Yr awdurdodau rheoli risg yn ardal yr awdurdod;
- Y camau gweithredu i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a all gael eu cymryd gan yr awdurdodau hynny mewn cysylltiad â'r ardal;
- Yr amcanion ar gyfer rheoli perygl o lifogydd lleol;
- Y mesurau a gynigwyd i gyflawni'r amcanion hynny;
- Sut a phryd y disgwylir rhoi'r mesurau ar waith;
- Costau a manteision y mesurau hynny, a sut y telir amdanynt;
- Asesiad perygl llifogydd lleol at ddiben y strategaeth;
- Sut a phryd yr adolygir y strategaeth, a
- Sut mae'r strategaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

## Pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghastell-nedd Port Talbot?

Nodwyd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** (CBSCNPT) fel yr **Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol** (LLFA) ar gyfer y fwrdeistref sirol yn y **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009** a'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**. Mae hyn yn rhoi rôl arweiniol strategol i'r cyngor wrth oruchwylio'r rheolaeth o berygl llifogydd lleol. Mae'r **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd** yn nodi pwy yw'r **Awdurdodau Rheoli Risg** eraill yn yr ardal sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol o ran rheoli perygl llifogydd. Rhestrir yr awdurdodau hyn yn y tabl isod ynghyd â'u **cyfrifoldebau rheoli perygl llifogydd**.

| Awdurdod Rheoli Risg | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (LLFA) | Rheolaeth Arweiniol o berygl llifogydd o ffynonellau lleol – cyrsiau dŵr cyffredin, dŵr arwyneb, dŵr daear a phan fo cysylltiad rhwng y ffynonellau hyn â phrif afon a'r môr. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) | Rheoli perygl llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. |
| Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) | Rheoli perygl llifogydd ar draffyrdd a chefnffyrdd. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Awdurdod Priffyrdd) | Rheoli perygl llifogydd ar ffyrdd gwledig a thraffyrdd. |
| Dŵr Cymru Welsh Water | Rheoli perygl llifogydd o ddŵr arwyneb budr carthffosydd a llifogydd o bibau'r prif gyflenwad dŵr sydd wedi torri. |
| Mordwyo Camlas Nedd, Cwmni Camlas Tennant, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a CBSCNPT | Rheoli gweithrediad camlesi. |

# Dyletswyddau a Phwerau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn rhoi nifer o ddyletswyddau statudol i **CBSCNPT** fel **LLFA** gan gynnwys:

- Dyletswydd i ddatblygu, cynnal, gweithredu a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yn ei ardal;
- Dyletswydd i gydweithio ag awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data;
- Dyletswydd i archwilio llifogydd yn ei ardal, i'r graddau yr ystyrir hynny'n angenrheidiol neu'n briodol;
- Dyletswydd i gynnal cofrestr o asedau sydd mewn perygl o lifogydd difrifol;
- Dyletswydd i gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy.

Yn ogystal â'r dyletswyddau hyn, mae gan **CBSCNPT** nifer o bwerau goddefol fel **LLFA**. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i'r awdurdod i wneud pethau penodol, ond nid ydynt yn bwerau gorfodi. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys:

- Pwerau i ofyn i berson ddarparu gwybodaeth am swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yr awdurdod;
- Pwerau i ddynodi strwythur neu nodwedd y mae CBSCNPT, fel yr awdurdod dynodedig, yn ei ystyried yn berygl llifogydd;

Mae'n ofynnol i **CBSCNPT** gymryd dwy rôl arall hefyd:

- Bod yn gyfrifol am ganiatáu gwaith ar gyrsiau dŵr cyffredin; a
- Gweithredu fel y Corff Cymeradwyo ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC). Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo, mabwysiadu a chynnal SDC ar safleoedd datblygu newydd sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.

## Amcanion a mesurau i reoli perygl llifogydd

Mae'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru** yn nodi pedwar amcan trosgynnol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'r strategaeth leol yn cynnwys yr amcanion hyn ac yn mynd ymlaen i nodi sawl is-amcan i'w cefnogi. Ceir detholiad ohonynt isod:

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol yn lleol.
- Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Erbyn 2026, sicrhau y bydd pawb sy'n byw mewn ardal perygl llifogydd yn deall y perygl llifogydd yn yr ardal, canlyniadau'r perygl a sut i fyw gyda'r perygl hwnnw.
- Ymateb i ddigwyddiadau yn brydlon ac yn briodol.
- Cynyddu'r defnydd o ffynonellau eraill o arian ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r strategaeth leol yn cynnwys nifer o fesurau arfaethedig i helpu i gyflawni'r amcanion rheoli perygl llifogydd a nodir ynddi. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys rhai ar gyfer gweithredu uchel (lefel genedlaethol) a gweithredu ar lefel leol. Ceir detholiad o fesurau ar gyfer gweithredu ar lefel leol isod:

- Darparu mapiau o'r holl ffynonellau llifogydd.
- Datblygu cofrestr a nodi strwythurau/nodweddion naturiol a gwneuthuredig sy'n debygol o effeithio ar berygl llifogydd erbyn 2014.
- Adolygu'r rhaglen o gynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd.
- Dylid nodi grwpiau ac unigolion diamddiffyn yr effeithir arnynt yn yr ardal yr effeithir arni gan lifogydd erbyn 2017.
- Sicrhau ymateb cynnar a phriodol i ddigwyddiadau brys.
- Datblygu cynlluniau brys ar lefel leol gyda Chynghorau Cymuned/Tref.

## Adolygu'r Strategaeth

Mae'n rhaid monitro a diweddaru'r strategaeth a gwneir hyn yn flynyddol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth newydd yn cael ei chynnwys ac i sicrhau y defnyddir y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'n bosib y bydd amlder adolygu'r strategaeth yn amrywio yn y tymor hir, ond ni fydd fyth yn llai na'r lleiafswm a argymhellir. Adolygir diwygiadau'r strategaeth gan y Fforwm Cydnerthu, a phrosesau gwleidyddol priodol eraill, a bydd ar gael i'r cyhoedd hefyd.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Cymeradwywyd dogfen y strategaeth gan Weinidogion Cymru a gellir ei gweld ar-lein yn **www.npt.gov.uk**; bydd copïau papur ar gael i'w gweld hefyd yn:

**Y Ceiau,**

**Ffordd Brunel,**

**Parc Ynni Baglan,**

**SA11 2GG.**

Bydd Castell-nedd Port Talbot yn ymdrechu i roi'r mesurau lleol a bennwyd ar waith er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y ddogfen.

Y broses nesaf ar gyfer **CBSCNPT** fel **LLFA** yw paratoi **Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd** ar gyfer yr ardal. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol dan **Reoliadau Perygl Llifogydd 2009** a bydd yn ein helpu i ddeall y perygl llifogydd yn yr ardal yn well.